# Cyflwyniad i gymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



# CYNNWYS


## Trosolwg o'r fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 5

Cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer 6

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 8

## Strwythur y cymhwyster 10

Beth yw uned? 11

Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm - pam hynny? 12

Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned? 13

Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt? 14

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn? 17

## Ffocws ar arweinyddiaeth 19

## Ymgysylltu â chyflogwyr 20

Sut allai fy nghyflogwr fod yn rhan o fy nysgu? 21

## Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster? 22

Cam 1 – Cyn cyflenwi 24

Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau? 25

Beth yw credydau? 25

Grŵp gorfodol 26

Grŵp dewisol A 27

Grwpiau dewisol B neu C 28

Cam 2 – Cyfnod Dysgu 34

Parodrwydd ar gyfer asesu - arddangos cymhwysedd 35

Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol 36

Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? 37

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? 37

Pa dystiolaeth ychwanegol y gallwn i ei defnyddio? 38

Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer 39

Beth yw log myfyriol? 40

Beth yw trafodaeth dan arweiniad? 43

Cam 4 – Cwblhau 46

Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth dan arweiniad? 46

Pa gymorth sydd ar gael i mi? 47

Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato? 49

Symud ymlaen at gyflogaeth 49

Symud ymlaen y tu hwnt i Lefel 4 50

Symud ymlaen at ddysgu pellach 51

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach 52

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster? 53

Cyllid 53

Sut ydw i'n hoffi dysgu - beth yw fy 'hoff' ddull dysgu? 54

# Trosolwg o'r fframwaith

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu gofal plant medrus, sy'n uchel ei fri fel proffesiwn a gyrfa ddelfrydol, ac yn cael ei gydnabod am y rôl hanfodol mae'r sector yn ei chwarae wrth helpu ein plant i ddatblygu. (2019 GCC: AWIF [Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan]; tud. 1, cyrchwyd 06.08.19)

https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/All-Wales-induction-framework-for-early-years-and-childcare_CYM.PDF

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ymgeiswyr, teuluoedd/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC, (**y Consortiwm**) i ddatblygu cyfres newydd o 19 o gymwysterau â'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 5). Mae'r Consortiwm wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Gallwch ddysgu rhagor am adolygiad Cymwysterau Cymru yma: https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un ai a ydych yn yr ysgol neu'r coleg chweched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio yn y coleg neu gyda darparwr yn y gweithle, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'u cynllunio i ddiwallu'ch anghenion. Ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer dilyniant p'un a ydych yn ystyried mynd i gyflogaeth, yn ceisio dilyniant gyrfa neu'n gobeithio mynd i'r coleg neu'r brifysgol.

# Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae'r canllaw hwn i fyfyrwyr yn canolbwyntio ar gymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**. Rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf i gwblhau'r cymhwyster hwn. Amlygir sut mae'r cymhwyster yn ffitio o fewn y gyfres newydd o gymwysterau ar y fframwaith isod. Er gwybodaeth, gall y teitlau ar gyfer cymhwyster Lefel 4 newid.

## Lefel 5

- City & Guilds — Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithsaol: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Arbenigedd **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Paratoi i Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Paratoi i Arwain a Rheoli yn y Maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag Arbenigedd **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- cbac wjec — TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymbeithasol, a Gofal Plant **Ynfyw erbyn: Medi 20**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn Fyw erbyn: Medi 19**

## Lefel 2

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn Fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** **Yn fyw erbyn: Medi 19**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 19**

## Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer
- Seiliedig ar wybodaeth
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3
- City & Guilds — Cynigir gan City & Guilds
- cbac wjec — Cynigir gan CBAC

# Cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Rydych chi'n gweithio tuag at y cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n ceisio gweithio, mewn:

- lleoliadau gofal plant rheoledig gyda phlant o dan 8 oed a'u teuluoedd/gofalwyr
- gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y sawl sy'n gweithio gyda phlant 0-19 a'u teuluoedd/gofalwyr.

Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu ac arddangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, byddwch yn gallu arddangos eich bod yn:

- deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn gallu eu defnyddio'n ymarferol
- deall dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn o ddarparu gofal, chwarae a dysgu, ac yn gallu eu defnyddio'n ymarferol
- hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eich ymarfer eich hunan
- ymwybodol o bolisïau allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- gallu myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eich swydd.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**. Argymhellir yn gryf eich bod wedi cwblhau neu ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**.

Hefyd, i'r sawl sydd â rôl addas, mae'r cymhwyster Lefel 3 newydd hwn yn darparu dilyniant o gymhwyster newydd **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** neu o ystod o gymwysterau Lefel 2 a oedd yn bodoli eisoes fel y manylir yn y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig yng Nghymru.

Erbyn diwedd eich cymhwyster, byddwch hefyd wedi ennill y wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac arfer sylfaenol sydd eu hangen arnoch i gefnogi dilyniant i astudiaethau pellach neu gyflogaeth gyda'r sector Plant a Blynyddoedd Cynnar.

## Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Mae cynnwys y cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r sefydliadau a'r unigolion dilynol:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Rhwydwaith y Blynyddoedd Cynnar
- CWLWM
- Tiwtoriaid, athrawon, aseswyr ac arbenigwyr eraill.

Mae'r cynnwys yn cael ei lywio a'i ddylanwadu gan Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Bydd y strwythur hwn a'r cynnwys yn eich helpu i fod yn hyderus y gallwch arddangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru.

Gall cyflogwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ddefnyddio Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i lywio eu rhaglen gynefino yn y gweithle ac felly bydd cwblhau'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn eich helpu i baratoi at gyflogaeth. Efallai y bydd gan ddysgwyr sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd, ac sydd eisoes wedi cwblhau cyfnod cynefino ffurfiol, sail gadarn o wybodaeth a fydd yn cefnogi eu dysgu. Bydd Tiwtoriaid/Aseswyr am siarad â chi am yr hyn rydych chi eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud er mwyn osgoi ailadrodd dysgu yn ddiangen.

**Sut mae Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cysylltu â chymwysterau o fis Medi 2019 ymlaen?**

O fis Medi 2019, bydd cymhwyster "craidd" yr holl gymwysterau Lefel 2 a 3 blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyffredinol sy'n rhan o'r fframwaith cynefino. **Bydd elfennau ymarfer y fframwaith cynefino** hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y cymwysterau ymarfer. Ystyr hyn, felly, yw y bydd unrhyw ddysgwyr newydd sy'n cyflawni'r fframwaith sefydlu yn dechrau cynhyrchu tystiolaeth y bydd modd ei defnyddio tuag at gyflawni'r cymwysterau y mae angen iddynt eu hymarfer. (2019 GCC: AWIF [Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan]; tud. 8, cyrchwyd 12.07.19)

https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/All-Wales-induction-framework-for-early-years-and-childcare_CYM.PDF

Mae'n debygol y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr dysgu yn y gweithle yn cydweithio'n agos â chyflogwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn eich ardal a byddant wedi datblygu rhaglen astudio i sicrhau bod holl ofynion y cymhwyster yn cael eu diwallu'n llawn. Efallai y bydd eich dysgu yn digwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu trwy ymagwedd fwy cyfunol sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein. Fel arall, efallai y cewch eich cefnogi i ddysgu 'yn y gwaith' ac i ymgymryd â rhywfaint o astudiaethau hunangyfeiriedig. Pa bynnag ymagwedd at ddysgu a gymerir, rydym wedi darparu rhai adnoddau cefnogol a fydd yn eich helpu ar hyd y ffordd.

Mae adnoddau'r cymhwyster ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Holwch eich tiwtor/athro/aseswr ynghylch cwblhau eich cymhwyster yn Gymraeg. Mae'r deunyddiau cymorth sydd ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys:

- llawlyfr y Cymhwyster
- canllaw ar gyflwyno'r cymhwyster
- pecyn asesu.

P'un a ydych yn yr ysgol, yn y coleg neu yn cael eich cefnogi gan ddarparwr yn y gweithle, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi. Gall nifer o wahanol ffactorau ddylanwadu ar sut rydych yn dysgu, gan gynnwys yr hyn sy'n eich cymell a pha fath o amgylchedd sydd arnoch ei angen. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i ganfod sut y gallant eich cefnogi i ddysgu'n effeithiol - cyfeirir at hyn yn aml fel eich **'arddull ddysgu ddewisol'** (gweler tudalen 54 am ragor o fanylion ynglŷn ag eich arddull ddysgu ddewisol).

# Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol.

Mae pedair uned o fewn y grŵp gorfodol:

- 300 Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- 301 Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad
- 302 Hybu maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar
- 303 Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod

Mae 3 grŵp o unedau dewisol, â chyfanswm o 34 uned. Mae gan grŵp A 3 uned, mae gan grŵp B 5 uned ac mae gan grŵp C 26 uned. Rhaid i chi ddewis **o leiaf 3 uned ddewisol**, y mae'n rhaid i 1 ohonynt ddod o grŵp A. Rhaid i'ch unedau dewisol gyfateb i gyfanswm o 20 credyd o leiaf.

Y prif ddulliau asesu yn y cymhwyster hwn fydd drwy gyfres o dasgau strwythuredig, portffolio o dystiolaeth a thrafodaeth a arweinir gan aseswr. Cynlluniwyd y gweithgareddau asesu i ganiatáu am gasglu tystiolaeth gyfannol. Byddant yn eich cynorthwyo i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a chanlyniadau dysgu o fewn yr un gweithgaredd, a bydd hyn yn lleihau ailadrodd unrhyw asesiadau.

Mae'r tasgau yn gofyn i'r ymgeisydd integreiddio ei wybodaeth a'i sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector o ran darparu gofal a chymorth effeithiol. Felly mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

Mae'r asesiad hefyd yn rhoi cyfle i gael trafodaeth grynhoi derfynol gan roi cyfle i chi a'ch aseswr fyfyrio ar yr asesiad, ac i'r aseswr gadarnhau canlyniad yr asesiad.

# Beth yw uned?

Mae'r holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u trefnu mewn unedau - ychydig fel penodau mewn llyfr. Dangosir cynllun yr uned a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn isod ac rydym wedi nodi rhai agweddau ac iaith allweddol y byddwch yn dod yn fwy a mwy cyfarwydd â hwy wrth i chi symud ymlaen trwy'ch taith ddysgu ac asesu.

**Rhif yr Uned**

**Lefel yr Uned**

**Nod/crynodeb Uned:**
Crynodeb ar lefel uchel o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau o gynnwys yr uned y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am fathau o osodiadau y mae'r uned yn ymwneud â nhw, neu'n cael eu heithrio rhagddo.

**Uned 301** **Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 35 |
| **Credyd:** | 5 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant. |

Deilliant dysgu:

1. Fframweithiau damcaniaethol sy'n ategu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Nodweddion allweddol **damcaniaethau** traddodiadol a chyfoes mewn perthynas â datblygiad a chwarae plant
1.2 Cyfnodau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd sy'n digwydd o adeg cenhedlu ymlaen
1.3 Gwahanol rannau a strwythurau'r system nerfol
1.4 Effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.5 Y term 'cyfleoedd da' a'u perthnasedd
1.6 Y termau 'disgwyl profiadau' a 'dibynnu ar brofiadau'
1.7 Y term 'cyflwyno a dychwelyd' a sut mae'n cefnogi datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.8 Y ffactorau andwyol cynenedigol ac ôl -enedigol posibl a fyddai'n gallu effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd mewn perthynas â **thwf corfforol, emosiynol a gwybyddol**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.9 Cefnogi plant i ddatblygu sgema
1.10 Hybu a chefnogi amgylchedd dwyieithog sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Amrediad

**Damcaniaethau:** gwybyddol, dyneiddiol, dysgu cymdeithasol, gwydnwch, lluniadaethol, ymddygiadol, chwarae

**Twf corfforol, emosiynol a gwybyddol:** cyfathrebu, ymlyniad, ffurfio'r cof, llwybrau synhwyraidd, sgiliau echddygol bras a manwl

**Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer Llawlyfr y Cymhwyster** **41**

**Teitl yr Uned**


**ODA:**
Nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

**Deilliant Dysgu (DD):**
Mae angen rhan ar wahân i nodi'r hyn i'w ddysgu, sy'n berthnasol i nod yr uned.

**Meini prawf asesu (MPA):**
Mae angen eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau i fodloni deilliant dysgu penodol.

# Mae rhai geiriau a datganiadau yn ymddangos mewn print trwm - pam hynny?

Ym mhob uned byddwch yn sylwi bod rhai geiriau a datganiadau mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod y rhain i'w hystyried mewn ffordd benodol neu mae angen defnyddio diffiniad neu ystyr benodol. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ynghylch y geiriau a'r datganiadau hyn yn adran 'Amrediad' yr uned.



**Uned 301** Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 35 |
| **Credyd:** | 5 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant. |

Deilliant dysgu:

1. Fframweithiau damcaniaethol sy'n ategu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Nodweddion allweddol **damcaniaethau** traddodiadol a chyfoes mewn perthynas â datblygiad a chwarae plant
1.2 Cyfnodau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd sy'n digwydd o adeg cenhedlu ymlaen
1.3 Gwahanol rannau a strwythurau'r system nerfol
1.4 Effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.5 Y term 'cyfleoedd da' a'u perthnasedd
1.6 Y termau 'disgwyl profiadau' a 'dibynnu ar brofiadau'
1.7 Y term 'cyflwyno a dychwelyd' a sut mae'n cefnogi datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.8 Y ffactorau andwyol cynenedigol ac ôl -enedigol posibl a fyddai'n gallu effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd mewn perthynas â **thwf corfforol, emosiynol a gwybyddol**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.9 Cefnogi plant i ddatblygu sgema
1.10 Hybu a chefnogi amgylchedd dwyieithog sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

Amrediad

**Damcaniaethau:** gwybyddol, dyneiddiol, dysgu cymdeithaso l, gwydnwch, lluniadaethol, ymddygiadol, chwarae
**Twf corfforol, emosiynol a gwybyddol:** cyfathrebu, ymlyniad, ffurfio'r cof, llwybrau synhwyraidd, sgiliau echddygol bras a manwl

**Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer Llawlyfr y Cymhwyster** **41**

**Geiriau mewn print trwm**

**Amrediad:**
Mae'n nodi'n union beth mae'n rhaid ei ystyried wrth fynd i'r afael â'r geiriau neu'r datganiadau hyn mewn print trwm.

# Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd pob uned rydym wedi darparu cyfarwyddyd pellach a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain er mwyn arwain eu darpariaeth o addysgu, dysgu ac asesu. Dangosir y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer Uned 300 yma. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi edrych ar y 'Canllawiau Cyflwyno' am bob un o'r unedau yn y cymhwyster hwn. Gellir canfod hyd yn Llawlyfr y Cymhwyster.

**Uned 300 — Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant**

***Canllawiau cyflwyno***

Yn sylfaen i gymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster ymarfer, mae uned orfodol – **Cefnogi ymarfer craidd mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

Mae'r uned hon yn cynnwys pum canlyniad sy'n adlewyrchu'r elfennau cymhwyso gwybodaeth sy'n cael sylw yng nghymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant:** Cymhwyster **Craidd**:

1. Egwyddorion a gwerthoedd
2. Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
3. Ymarfer proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant
4. Diogelu plant
5. Iechyd a diogelwch

Mae'r pum maes hyn yn adlewyrchu'r egwyddorion craidd sydd wrth wraidd ymarfer pob gweithiwr yn y sector gofal plant. Mae'r cynnwys wedi'i ddatblygu i amlygu'r gwert hoedd, yr egwyddorion a'r ymddygiad craidd y dylai unrhyw ddysgwyr sy'n gweithio mewn rôl gofal plant Lefel 3 eu dangos bob amser yn ystod eu gwaith. Fel y cyfryw, mae cynnwys yr uned wedi'i strwythuro'n wahanol i unedau ymarfer eraill. Datblygwyd yr uned hon i adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn yr uned gwybodaeth graidd, gyda chanolbwynt ar ffyrdd o weithio ac ymddygiadau.

***Dull asesu***

Bydd y cynnwys gorfodol yn cael ei asesu'n holistig yn rhan o'r tasgau strwythuredig. Dylai'r gwerthoedd, egwyddorion ac ymddygiadau sydd wedi'u mewnblannu i ffurfio'r cynnwys gael ei hadlewyrchu ym mhob ymarfer mae'r dysgwr yn ymgymryd ag ef, gyda thystiolaeth ohonynt i'w gweld yng ngofynion y tasgau strwythuredig.

Mae'n bwysig bod tiwtoriaid ac aseswyr mewnol yn nodi adega u pan nad yw dysgwyr yn adlewyrchu'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r ymddygiadau yn yr uned hon yn ystod eu gwaith. Ar adegau pan nad yw'r ymarfer a arsylwir yn bodloni disgwyliadau'r uned hon – dylai'r aseswr sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi fel tystiola eth yn y portffolio. Bydd yn ofynnol wedyn mewnblannu dysgu ymhellach, ac i ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod y dysgwr wedi datblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd craidd.

Mae **gweithgareddau a phrofiadau** yn cyfeirio at weithgareddau chwarae, dysgu a hamdden sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yr ydych yn gweithio gydag ef ac yn bodloni ei ddewisiadau a'i alluoedd, fel chwarae yn yr awyr agored, chwarae rhydd, chwarae rôl, gwneud marciau, toes chwarae, sgipio, pêl -droed, darllen ac adrodd stori, gweithgareddau TGCh, celf a chrefft.

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys Y Cod Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad y GIG yng Nghymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng N ghymru lle y bo'n berthnasol.

**Mae'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol yn cynnwys:**

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru

Y Saith Nod Craidd:

cael dechrau teg i fywyd **(y blynyddoedd cynnar)**

38 **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer Llawlyfr y Cymhwyster**

# Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanynt?

Mae pob un o'r unedau yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y'i dangosir uchod, cyflwynir y rhain yn y Deilliannau Dysgu a'r Meini Prawf Asesu. Darperir trosolwg o bob grŵp o unedau yn y cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** isod:

| UNEDAU GORFODOL | |
|---|---|
| Uned 300: Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae cynnwys yr uned hon yn adlewyrchu'r egwyddorion, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sylfaenol y dylid eu harsylwi a'u hadlewyrchu mewn ymarfer ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. |
| Uned 301: Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant. |
| Uned 302: Hybu maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu maeth a hydradiad plant. |
| Uned 303: Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth adnabod afiechyd, pla/haint, clefyd hysbysadwy ac imiwneiddio posibl yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt. |

| GRŴP DEWISOL A | |
|---|---|
| Uned 304: Hybu gofal plant 0-2 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth weithio gyda phlant 0-2 oed. Mae'n cynnwys manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cefnogi a darparu arferion gofal corfforol. |
| Uned 305: Hybu gofal plant 2-3 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth weithio gyda phlant 2-3 oed. Mae'n cynnwys rôl darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi a darparu arferion gofal corfforol diogel. |
| Uned 306: Hybu gwaith gyda phlant 3-7 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau rhagarweiniol sydd eu hangen i gyfrannu at ofal plant 3-7 oed, gan gynnwys dysgu a datblygu, gan adlewyrchu Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar presennol yng Nghymru. |

| GRŴP DEWISOL B | GRŴP DEWISOL C |
|---|---|
| Uned 307: Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br><br>Uned 308: Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta<br><br>Uned 309: Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br><br>Uned 310: Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br><br>Uned 311: Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | Uned 312: Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi<br>Uned 313: Cefnogi hybu iechyd plant<br>Uned 314: Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau<br>Uned 315: Cefnogi plant i fonitro glwcos<br>Uned 316: Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant<br>Uned 317: Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser<br>Uned 318: Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc<br>Uned 319: Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw<br>Uned 320: Rhoi gofal stoma<br>Uned 321: Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth<br>Uned 322: Cynnal profion sgrinio golwg<br>Uned 323: Cynnal profion sgrinio'r clyw ar gyfer plant oed ysgol<br>Uned 324: Awtochwistrellu adrenalin<br>Uned 325: Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog<br>Uned 326: Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref<br>Uned 327: Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant<br>Uned 328: Hwyluso dysgu mewn grŵp<br>Uned 329: Cefnogi unigolion drwy fwydo â thiwb<br>Uned 208: Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus<br>Uned 209: Ymateb i adweithiau anaffylactig<br>Uned 210: Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Uned 211: Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant<br>Uned 212: Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli<br>Uned 213: Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant<br>Uned 214: Cynnal profion pwynt gofal<br>Uned 215: Casglu sbesimenau |

**Sylwer:** mae'r unedau yng ngrwpiau dewisol B ac C wedi'u rhannu rhwng y ddau grŵp er mwyn caniatáu gwahaniaethu'n hawdd rhwng cynnwys blynyddoedd cynnar penodol a chynnwys sy'n gysylltiedig ag iechyd y blynyddoedd cynnar.

# Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn?

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** bydd angen i chi:

- weithio'n agos gyda'ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr**
- bod yn barod i ddysgu am bethau newydd sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant a'u profi
- bod ag agwedd a bod mewn sefyllfa sy'n eich galluogi i ymarfer, myfyrio a datblygu eich sgiliau a'ch rhinweddau arwain
- paratoi ar gyfer asesiadau a'u cwblhau - mae rhagor o wybodaeth am asesu ar dudalen 36 .

**Beth yw tiwtor/athro?**

Gall eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle ddyrannu tiwtor/athro i chi. Mae'n annhebygol y byddant yn gweithio gyda chi yn unig, er bod hyn yn digwydd yn achlysurol. Mae tiwtor/athro yn rhywun a fydd yn eich cefnogi a'ch arwain ac a fydd yn eich helpu i ddysgu am yr holl bethau pwysig y mae'n rhaid i chi eu gwybod i weithio'n ddiogel gyda phlant ac i ddiwallu eu hanghenion. Bydd eich tiwtor/athro yn defnyddio adnoddau dysgu a thechnegau addysgu sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i baratoi ar gyfer asesiad.

**Beth yw aseswr?**

Aseswr yw rhywun sy'n alwedigaethol gymwys, sy'n golygu bod ganddo brofiad ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar. Gall eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle ddyrannu aseswr i chi. Fel arfer byddant yn gweithio gyda mwy nag un dysgwr, ond fel rheol byddant yn asesu pob dysgwr yn unigol. Bydd eich aseswr yn eich cefnogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiad a byddant yn ymwneud â gwneud penderfyniadau asesu ynghylch pa mor dda rydych yn gwybod ac yn deall y wybodaeth sylfaenol y gwnaethom gyfeirio ati uchod.

BYDDWCH HEFYD YN DOD I GYSYLLTIAD Â PHOBL ALLWEDDOL ERAILL WRTH I CHI WEITHIO TUAG AT ENNILL EICH CYMWYSTERAU, GAN GYNNWYS Y DARPARWR SICRWYDD ANSAWDD MEWNOL A PHAN FYDDWCH WEDI CWBLHAU'CH HOLL ASESIADAU EFALLAI Y CEWCH GYFLE I GWRDD Â'R DARPARWR SICRWYDD ANSAWDD ALLANOL.

**Beth yw Darparwr Sicrwydd Ansawdd Mewnol *(IQA)*?**

Bydd *IQA* yn cael ei nodi gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle. Eu prif swyddogaeth yw rheoli tîm o aseswyr er mwyn cynnal cyfanrwydd y rhaglen neu'r cymhwyster sy'n cael ei gyflenwi. Maent yn cyflawni hyn trwy sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu gweithredu a bod tiwtoriaid/athrawon/aseswyr yn dehongli, deall a gweithredu safonau a gofynion y cymwysterau yn gywir, yn deg ac yn gyson. Bydd ganddynt ddiddordeb mewn deall sut y cawsoch eich cefnogi trwy'r broses o ennill eich cymhwyster ac felly gallent drefnu siarad â chi cyn i chi orffen eich rhaglen astudio.

**Beth yw Darparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol *(EQA)*?**

Dyrennir *EQA* gan **y Corff Dyfarnu** ac mae'n gweithio ag ysgolion, colegau a darparwyr yn y gweithle, a thrwy ddefnyddio proses fonitro maent yn sicrhau bod y broses ddysgu ac asesu o'r ansawdd uchaf ar waith. Fel rhan o'u rôl, gall *EQA* weithio'n agos iawn gydag *IQA* a bydd hefyd yn cysylltu â thiwtoriaid/athrawon/aseswyr/mentoriaid gweithle ac yn ystod gweithgareddau monitro gallent ofyn am gael siarad â dysgwyr unigol. Mae ganddynt ddiddordeb i glywed am brofiad y dysgwr ac ansawdd y cymorth rydych wedi'i dderbyn ac felly maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i benderfynu a oes angen help a chyngor ychwanegol ar yr ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle.

# Ffocws ar arweinyddiaeth

Ym mhob rhan o'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** mae ffocws ar ddatblygu eich sgiliau arwain fel y gallwch ddangos sut rydych yn 'gweithio mewn ffyrdd, a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sydd…'.

Mae llawer o'r unedau'n canolbwyntio ar eich gallu i hybu yn hytrach na chefnogi:

e.e. Uned 300 - Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
Uned 301 - Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

O ganlyniad, mae llawer o'r canlyniadau dysgu ym mhob rhan o'r cymhwyster yn gofyn i chi weithio ar lefel uwch o gyfrifoldeb:

e.e. Uned 305, Deilliant dysgu 2 – Hybu a chefnogi bondio ac ymlyniad i blant 2-3 oed
Uned 306, Deilliant dysgu 3 – Hybu'r broses o gefnogi arferion gofal corfforol diogel plant 3-7 oed

Dangosir hyn hefyd mewn llawer o feini prawf asesu:

e.e. Uned 300, meini prawf asesu 3.5 - Cynnal a hybu proffesiwn gweithwyr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a bod yn fodel rôl o ran arferion gorau yn eich gwaith
Uned 301, meini prawf asesu 1.10 – Hybu a chefnogi amgylchedd dwyieithog sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad
Uned 302, meini prawf asesu 1.14 – Hyrwyddo manteision deiet cytbwys i bobl eraill
Uned 304, meini prawf asesu 3.9 – Hybu awyrgylch tawel a chyfforddus wrth gefnogi arferion gofal corfforol diogel

Mae'n rhaid i chi felly fod ag agwedd a bod mewn sefyllfa sy'n eich galluogi i ymarfer, myfyrio a datblygu eich sgiliau a'ch rhinweddau arwain.

# Ymgysylltu â chyflogwyr

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** mae'n rhaid i chi fod yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ifanc mewn lleoliadau gofal plant rheoledig, gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant o dan 8 oed ac/neu wasanaethau plant GIG ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant 0-19 oed. Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i'ch cyflogwr chwarae rhan fawr yn eich dysgu, eich datblygiad a'ch cynnydd trwy gydol eich cymhwyster ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i gefnogi'n gryf.

## Beth yw mentor y gweithle?

Efallai y caiff mentor y gweithle ei benodi i chi gan eich cyflogwr. Nid ydynt yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddynt rôl bwysig o ran dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor y gweithle yn eich helpu i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn y gallech ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn berthnasol ym myd gwaith. Efallai y byddant hefyd yn eich helpu i nodi a gwneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd dysgu sy'n digwydd pan fyddwch ‘yn y gwaith’.

## Dw i ddim yn gweithio, a allaf barhau i wneud y cymhwyster hwn?

Os nad ydych chi yn gyflogedig ar hyn o bryd, argymhellir yn gryf eich bod yn cwblhau'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori**. Bydd y cymhwyster Ymarfer a Theori yn ei gwneud yn ofynnol i leoliad gorfodol gael ei gwblhau dros gyfnod y cymhwyster ac mae'n rhaid iddo fod mewn amgylcheddau sy'n cynnig gwasanaethau i blant a'u teuluoedd/gofalwyr fel y manylir uchod. Mae'n annhebygol y bydd lleoliadau mewn ysgolion yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau ymarferol a thechnegol cywir ac felly mae cael lleoliad mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn well.

# Sut allai fy nghyflogwr fod yn rhan o fy nysgu?

**Cam 1 – Cyn cyflenwi**

- **Cofrestru cychwynnol a dewis uned**
  - Mae'n eich cefnogi i ddeall yr opsiynau uned sydd ar gael ac yn eich helpu i ddewis unedau a fydd fwyaf perthnasol i'ch rôl/gyrfa barhaus.

**Cam 2 – Cyfnod Dysgu**

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**
  - Mae'n eich cefnogi drwy'r broses o ddysgu a hyfforddi 'yn y gwaith'. Mae'n sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi trwy weithgareddau monitro yn y gweithle a CPD 'normal', e.e. mynychu sesiynau 1-wrth-1/goruchwylio rheolaidd, diweddaru eich logiau myfyriol, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer asesu.
- **Porth i asesiad crynodol - arsylwadau**
  - Gallai eich rheolwr gysylltu â'r aseswr i benderfynu'r pwynt pan ystyrir eich bod yn barod ar gyfer asesiad ffurfiannol.
  - Bydd eich aseswr yn cynnal **o leiaf dau asesiad ffurfiannol** i lywio'r penderfyniad 'parod ar gyfer asesu'.
  - Bydd yn cynnal trafodaeth gyda chi ynghylch canlyniad eich arsylwadau ffurfiannol ac yn cadarnhau eich bod yn barod i gael eich asesu.

**Cam 3 – Cyfnod asesu**

- **Cyn yr asesiad**
  - Efallai y bydd eich rheolwr yn cwrdd â'ch aseswr i gadarnhau ac egluro, os oes angen, eu dealltwriaeth o ofynion asesu, gan gynnwys mapio canlyniadau a disgwyliadau'r broses.
- **Cyfarfod pwynt gwirio cychwynnol i'r ymgeisydd cyn yr asesiad**
  - Efallai y byddwch chi'n cwrdd â'ch rheolwr i drafod a chynllunio'ch cynlluniau asesiad crynodol a'ch llinell amser.
  - Bydd gweithgareddau cytunedig yn y gweithle yn digwydd yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod asesu, e.e. cyfarfodydd cynnydd rheolaidd.
  - Ceisiwch gymorth gan eich rheolwr i'ch helpu i nodi'r dystiolaeth orau ar gyfer eich portffolio a'ch log myfyriol.
- **Cyfarfod cynllunio ar gyfer asesu**
  - Gofynnwch i'ch rheolwr adolygu'ch cynlluniau terfynol a chymeradwyo gwaith papur perthnasol.

**Cam 4 – Cwblhau**

- **Cadarnhau'r penderfyniad**
  - Bydd eich aseswr yn cwrdd â'r rheolwr i'w hysbysu o ganlyniad yr asesiad.

# Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster?

**Cam 1 – Cyn cyflenwi**

- Cwblhau Ymarfer y GChDDP Craidd neu'r GChDDP Lefel 2 (neu gymhwyster blaenorol amgen derbyniol a gwblhawyd cyn mis Medi 2019); rhaglenni dysgu mewnol yn y gweithle.
- Cofrestru cychwynnol a dewis uned dewisol.

**Cam 2 – Cyfnod Dysgu**

- Cyfnod dysgu ffurfiol - gallai hyn gynnwys dysgu yn y gwaith, astudio annibynnol, gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.
- Isafswm o ddau arsylwad ffurfiannol ffurfiol gan aseswr.

*Ar ôl cwblhau arsylwadau, byddwch yn trafod ac yn cytuno â'ch rheolwr a'ch aseswr eich parodrwydd i gael eich asesu.*

**Cam 3 – Cyfnod asesu**

- Cyfarfod pwynt gwirio cychwynnol i'r Ymgeisydd cyn yr asesiad - gwneir hyn gyda'ch aseswr a'ch rheolwr.
- Tasg A (gweithgareddau rheolaidd o ddydd i ddydd a log myfyriol) - gweler tudalen 40 i gael rhagor o wybodaeth am y log myfyriol.
- Tasg B (cynllunio a gweithredu pedwar arsylwad o blentyn / plant yn y lleoliad gwaith).
- Tasg C (gwerthusiad cyfannol o ganlyniadau eich pedwar arsylwad).
- Tasg CH (pedwar cynllun gweithgaredd yn seiliedig ar arsylwadau blaenorol).

- Cyfarfod cynllunio ar gyfer asesu - bydd hwn gyda'ch aseswr a'ch rheolwr.
- Tasg D (gweithredu pedwar cynllun gweithgaredd)
    - o leiaf pedwar arsylwad ffurfiannol ffurfiol gan aseswr.
- Cyflwyno'ch portffolio wedi'i gwblhau a'ch log myfyriol i'ch aseswr.
- Tasg DD (trafodaeth dan arweiniad yn para 40 munud).

**Cam 4 – Cwblhau**

- Gwneir penderfyniad terfynol yr asesiad.
- Cadarnhau'r penderfyniad.

Ar ôl eich trafodaeth dan arweniad, bydd yr aseswr yn asesu'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un ai a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu cymhwyster. Os nad oes tystiolaeth ddigonol mewn unrhyw faes fe gewch eich cefnogi i ddarparu tystiolaeth ychwanegol.



# Cam 1 – Cyn cyflenwi

- **Cwblhau Ymarfer y GChDDP Craidd neu'r GChDDP Lefel 2**

Argymhellir yn gryf, cyn gwneud y cymhwyster hwn, eich bod wedi cwblhau neu ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant : Craidd** neu'r cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**.

- **Cofrestru cychwynnol a dewis uned**

Byddwch yn trafod opsiynau sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r cymhwyster gyda'ch rheolwr a'ch aseswr, e.e. dewis uned ddewisol.

Byddwch yn cwblhau asesiad cychwynnol cyn i chi gychwyn eich rhaglen er mwyn nodi:

- a oes gennych unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth a chyfarwyddyd y gallai fod arnoch eu hangen wrth weithio tuag at eich cymhwyster
- unrhyw unedau y mae eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau yn cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Mae'n wir fuddiol i'ch rheolwr gymryd rhan yn y drafodaeth hon neu gyfrannu ati.

## Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau?

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, mae'n rhaid i chi gyflawni lleiafswm o 35 credyd o leiaf.

- rhaid ennill 30 o gredydau o'r grŵp gorfodol
- rhaid ennill o leiaf 4 credyd o grŵp dewisol A
- gellir ennill y 16 credyd sy'n weddill o unedau yng ngrwpiau dewisol A, B neu C.

**Lleiafswm** yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 250.

Mae'n fuddiol i'ch rheolwr gyfranogi yn y broses ddewis hon. Siaradwch â'ch rheolwr am pa unedau dewisol sy'n gweddu orau i'ch rôl yn y lleoliad ac am eu gweledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir.

## Beth yw credydau?

Rydym wedi dyfarnu gwerth credyd i bob uned, mae'r gwerthoedd hyn i'w canfod yn y llawlyfr cymwysterau. Mae'r credydau a ddyfernir i uned yn adlewyrchu lefel a maint y wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac arfer a gyflawnir trwy gwblhau'r uned.

e.e.
Dyfarnwyd 18 credyd i Uned 300 Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
Mae Uned 209, Ymateb i adweithiau anaffylactig wedi cael 2 gredyd.

# Grŵp gorfodol

Mae pedair uned yn y grŵp hwn a rhaid i chi gwblhau pob un ohonynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae **Uned 300** yn adlewyrchu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu dilyn a'u hadlewyrchu yn ymarferol ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal y byddwch chi'n cyfranogi ynddo.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y **cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**. | Bydd **Uned 301** yn eich cefnogi i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth gefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu megis datblygiad niwrolegol a'r ymennydd, dysgu cyfannol, twf a datblygiad, dulliau arsylwi ac asesu a rôl gynhenid chwarae. | Bydd **Uned 302** yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth gefnogi maeth a hydradiad plant hyd at 8 oed.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu megis mathau o fwydo, diddyfnu, gofynion deiet maethlon a sut i weithio mewn ffyrdd i hybu, cefnogi a darparu hyn. | Bydd **Uned 303** yn eich cefnogi i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth gydnabod ac ymateb i salwch posibl, pla/haint, clefyd hysbysadwy ac imiwneiddio yn ystod plentyndod.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu megis arwyddion a symptomau salwch a phla posibl a'r camau gweithredu gofynnol. |

## Grŵp dewisol A

Mae 3 uned yn y grŵp hwn a rhaid i chi gwblhau o leiaf 1 ohonynt. Dylai hon fod yr uned sy'n ymwneud â grŵp oedran y plant rydych yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd.

Mae'r unedau hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda grwpiau oedran penodol o blant a sut i gefnogi eu gofal. Mae Uned 304 yn ystyried plant 0–2 oed; mae Uned 305 yn ystyried plant 2-3 oed; ac mae Uned 306 yn ystyried plant 3–7 oed;

I gwblhau uned yn y grŵp hwn rhaid eich bod yn gweithio gyda'r grŵp oedran ffocws. Er y gallwch ddewis mwy nag un uned o'r grŵp hwn, ni allwch gwblhau uned yn seiliedig ar grŵp oedran nad ydych yn gweithio gydag ef. Os oes gennych ddiddordeb mewn cwblhau mwy nag un uned o Grŵp A dylech siarad â'ch rheolwr a thrafod addasrwydd gweithio a chael eich asesu gyda grwpiau oedran lluosog. Sylwch efallai na fydd lleoliad o fewn amgylchedd ysgol yn rhoi digon o gyfle i ddatblygu'r sgiliau ymarferol a thechnegol priodol sydd eu hangen ac felly mae'n well cael lleoliad mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

## Grwpiau dewisol B neu C

Mae'r unedau yng ngrwpiau dewisol B ac C wedi'u rhannu rhwng y ddau grŵp er mwyn caniatáu gwahaniaethu'n hawdd rhwng cynnwys blynyddoedd cynnar penodol a chynnwys sy'n gysylltiedig ag iechyd y blynyddoedd cynnar. Gellir dewis unedau o'r naill grŵp neu'r llall yn dibynnu ar y credydau sydd ar gael.

Mae 5 uned yng ngrŵp B. Mae'r unedau hyn yn berthnasol ar draws y blynyddoedd cynnar ym meysydd caffael iaith; cefnogi sgiliau magu plant; lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu; rheoli ymddygiad; ac anghenion ychwanegol. Os ydych yn teimlo bod unrhyw un o'r unedau hyn yn berthnasol i chi yn eich swydd bresennol dylech siarad â'ch rheolwr a'ch aseswr i benderfynu a ydynt yn addas. **Sylwch mai dim ond os yw'ch lleoliad yn defnyddio'r ymagwedd hon i gefnogi plant wrth iddynt caffael yr iaith Gymraeg y gallwch ddewis yr uned drochi iaith.**

Er mai unedau sy'n berthnasol i iechyd yn bennaf yw unedau grŵp C, mae rhai o'r unedau hyn yn unedau gwybodaeth ac felly gallent fod yn ddefnyddiol iawn ac yn gyraeddadwy o fewn lleoliad blynyddoedd cynnar sy'n fwy prif ffrwd. Efallai y bydd rhai o'r unedau hyn yn berthnasol iawn ac yn addas i chi yn eich swydd bresennol; dylech drafod hyn gyda'ch rheolwr a'ch aseswr a dewis yr unedau sydd yn fwyaf priodol i chi yn eich rôl bresennol.

Mae'r rheolau ychwanegol canlynol yn bodoli ar gyfer unedau penodol o fewn y cymhwyster hwn.

- Os hoffech chi gymryd Uned 324 Awtochwistrellu adrenalin, rhaid i chi hefyd gwblhau Uned 209 Ymateb i adweithiau anaffylactig. Gall Uned 209 gael ei gwneud naill ai cyn neu ar y cyd ag Uned 324.
- Rhaid i unrhyw ddysgwyr sy'n gwneud Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant fod wedi cwblhau ac ennill Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref cyn dechrau'r uned hon.

Ar gyfer y swyddi canlynol, gallai fod disgwyl astudio'r unedau isod, yn ogystal â'r unedau gorfodol. Nid yw'r rhestr rolau yn gynhwysfawr. Bydd yr unedau a ddewisir yn sicrhau cyfanswm o 16 credyd o leiaf i gyflawni'r cymhwyster Lefel 3. Mae'n bosibl mynd dros yr isafswm credydau drwy drafod â'r darparwr hyfforddiant yn ystod y cymhwyster, ac ymgymryd â rhagor o unedau achrededig fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus fel y bo'n gysylltiedig â'r rôl. Sylwch y darperir y tabl isod at ddibenion gwybodaeth yn unig ac na fwriedir ei ddefnyddio fel rhestr bendant na disgwyliad gorfodol.

| RÔL SWYDD | UNEDAU DEWISOL GRŴP A: YN DIBYNNU AR Y GRŴP OEDRAN Y GOFALIR AMDANO, GALL FOD ANGEN UN NEU FWY O'R UNEDAU ISOD | GWERTHOEDD CREDYD | UNEDAU DEWISOL GRWPIAU B A C BYDD YR UNEDAU A DDEWISIR O'R RHESTR ISOD YN DIBYNNU AR ARBENIGEDD Y LLEOLIAD CLINIGOL. | GWERTHOEDD CREDYD |
|---|---|---|---|---|
| **Rôl Iechyd** | | | | |
| Ymweliadau Iechyd / Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | 13 |
| | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | | | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 4 |
| | | | Cynnal profion pwynt gofal | 3 |
| | | | Casglu sbesimenau | 3 |
| Dechrau'n Deg Mamolaeth | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | 13 |
| | | | Cefnogi rhieni newydd a mamau beichiog | 4 |
| | | | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 4 |
| | | | Cynnal profion pwynt gofal | 3 |
| | | | Casglu sbesimenau | 3 |

| RÔL SWYDD | UNEDAU DEWISOL GRŴP A: YN DIBYNNU AR Y GRŴP OEDRAN Y GOFALIR AMDANO, GALL FOD ANGEN UN NEU FWY O'R UNEDAU ISOD | GWERTHOEDD CREDYD | UNEDAU DEWISOL GRWPIAU B A C BYDD YR UNEDAU A DDEWISIR O'R RHESTR ISOD YN DIBYNNU AR ARBENIGEDD Y LLEOLIAD CLINIGOL. | GWERTHOEDD CREDYD |
|---|---|---|---|---|
| Nyrsys Ysgol | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | | | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | 3 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Cefnogi plant i fonitro glwcos | 3 |
| | | | Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw | 3 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |
| | | | Ymateb i adweithiau anaffylactig | 2 |
| | | | Cynnal profion sgrinio golwg | 4 |
| | | | Cynnal profion sgrinio'r clyw ar gyfer plant oed ysgol | 3 |
| | | | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 4 |

| RÔL SWYDD | UNEDAU DEWISOL GRŴP A: YN DIBYNNU AR Y GRŴP OEDRAN Y GOFALIR AMDANO, GALL FOD ANGEN UN NEU FWY O'R UNEDAU ISOD | GWERTHOEDD CREDYD | UNEDAU DEWISOL GRWPIAU B A C BYDD YR UNEDAU A DDEWISIR O'R RHESTR ISOD YN DIBYNNU AR ARBENIGEDD Y LLEOLIAD CLINIGOL. | GWERTHOEDD CREDYD |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Lliniarol (Lefel 3) | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | 3 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser | 8 |
| | | | Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc | 9 |
| | | | Rhoi gofal stoma | 4 |
| | | | Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth | 4 |
| | | | Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant | 4 |
| | | | Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | 3 |
| **Rôl Gofal Plant** | | | | |
| Gweithiwr gofal plant meithrinfa | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 4 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Ymateb i adwaith anaffylactig | 2 |
| | | | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 2 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |

| RÔL SWYDD | UNEDAU DEWISOL GRŴP A: YN DIBYNNU AR Y GRŴP OEDRAN Y GOFALIR AMDANO, GALL FOD ANGEN UN NEU FWY O'R UNEDAU ISOD | GWERTHOEDD CREDYD | UNEDAU DEWISOL GRWPIAU B A C BYDD YR UNEDAU A DDEWISIR O'R RHESTR ISOD YN DIBYNNU AR ARBENIGEDD Y LLEOLIAD CLINIGOL. | GWERTHOEDD CREDYD |
|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr gofal plant sesiynol Cylch Cylch chwarae | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | | | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 4 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Ymateb i adwaith anaffylactig | 2 |
| | | | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 2 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |
| Cynorthwyydd Cyfnod Sylfaen gweithiwr gofal plant | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | | | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | | | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 4 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Ymateb i adwaith anaffylactig | 2 |
| | | | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 2 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |

| RÔL SWYDD | UNEDAU DEWISOL GRŴP A: YN DIBYNNU AR Y GRŴP OEDRAN Y GOFALIR AMDANO, GALL FOD ANGEN UN NEU FWY O'R UNEDAU ISOD | GWERTHOEDD CREDYD | UNEDAU DEWISOL GRWPIAU B A C BYDD YR UNEDAU A DDEWISIR O'R RHESTR ISOD YN DIBYNNU AR ARBENIGEDD Y LLEOLIAD CLINIGOL. | GWERTHOEDD CREDYD |
|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr gofal plant Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 4 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Ymateb i adwaith anaffylactig | 2 |
| | | | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 2 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |
| Dechrau'n Deg Gweithiwr Cynnal/ Teuluoedd | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 4 |
| | Hybu gofal plant 2-3 oed | 4 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 4 |
| | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 8 |
| | | | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 4 |
| | | | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 4 |
| | | | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | 5 |
| | | | Cefnogi hybu iechyd plant | 3 |
| | | | Ymateb i adwaith anaffylactig | 2 |
| | | | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 2 |
| | | | Awtochwistrellu adrenalin | 3 |

# Cam 2 – Cyfnod Dysgu

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**

Byddwch yn ymgymryd â dysgu a hyfforddi yn y gwaith; ac asesiad ffurfiannol parhaus.

- **Porth i asesiad crynodol - arsylwadau**

Bydd eich aseswr yn eich arsylwi wrth eich gwaith ar o leiaf dau achlysur ffurfiol.

*Ar ôl cwblhau arsylwadau, byddwch yn trafod ac yn cytuno â'ch rheolwr a'ch aseswr eich parodrwydd i gael eich asesu.*

Cyn y cyfnod dysgu, bydd eich rheolwr a'ch aseswr yn trafod yr amserlen a ragwelir sy'n ofynnol i'ch paratoi i fod yn 'barod i gael eich asesu'; bydd hyn yn cynnwys nodi'r mathau o dystiolaeth barhaus y gall y rheolwr eu defnyddio i nodi cynnydd sy'n cael ei wneud gennych, ac a fydd yn magu hyder yn eich 'parodrwydd'.

Yn ystod misoedd cynnar eich cymhwyster byddwch yn dysgu'r sgiliau ac yn cydgrynhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol i arddangos eich cymhwysedd a'ch parodrwydd i gael eich asesu. Gallai'r dysgu hwn ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth a'r lleoliad gwaith, gan ddilyn cynllun y cytunwyd arno gan eich rheolwr a'ch aseswr. Os ydych yn cael sgyrsiau rheolaidd â'ch rheolwr, fel 1 wrth 1, goruchwyliaeth, cyfarfodydd tîm ac ati, gallai'r rhain fod yn amser defnyddiol i chi drafod gyda'ch rheolwr eich taith ddysgu, cynnydd ac unrhyw gymorth rydych yn teimlo sydd ei angen arnoch. Os cânt eu recordio, gallai'r sgyrsiau hyn gael eu cynnwys yn eich portffolio o dystiolaeth hefyd.

Rhaid i chi ddangos eich cymhwysedd a'ch hyder yn uned orfodol 300, y mae ei chynnwys yn adlewyrchu'r gwerthoedd, ymddygiadau ac egwyddorion sylfaenol y dylid eu dilyn a'u hadlewyrchu yn ymarferol ym mhob gweithgaredd gofal plant a blynyddoedd cynnar y mae dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt ac sy'n adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2: Craidd.** Dim ond tan ar ôl i chi arddangos eich cymhwysedd yn yr uned hon y bydd asesu'n cychwyn am weddill y cymhwyster.

## Parodrwydd ar gyfer asesu - arddangos cymhwysedd

Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond pan fydd y rheolwr a'r aseswr yn hyderus bod yr ymgeisydd yn ddigon cymwys i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus y dylai gael ei asesu. Dylai hyn ddigwydd pan fydd y rhan fwyaf o'r dysgu wedi'i gyflwyno, ac yn dilyn rhaglen asesu barhaus a ffurfiannol.

1. Cyfarfod pwynt gwirio rhwng yr aseswr a'r rheolwr er mwyn gwirio eich bod ar y trywydd iawn a gwneud trefniadau ar gyfer arsylwi.
   - yn dilyn y cyfarfod hwn byddwch yn cael trafodaeth gyda'ch aseswr a'ch rheolwr i gadarnhau eich bod yn cytuno â'u penderfyniad
2. Bydd eich aseswr yn cwblhau o leiaf dau arsylwad ffurfiannol.
   - yn ystod yr arsylwadau hyn byddwch yn arddangos eich cymhwysedd a'ch hyder yn uned orfodol 300
3. Byddwch yn cael trafodaeth gyda'ch aseswr a'ch rheolwr i drafod canlyniad eich arsylwadau a'ch parodrwydd i gael eich asesu.

Unwaith y bydd pob parti - chi, eich rheolwr a'ch aseswr - yn hyderus eich bod yn barod, bydd asesiad crynodol yn cychwyn.

# Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol

- **Cyfarfod pwynt gwirio cychwynnol i'r ymgeisydd cyn yr asesiad**

Byddwch yn mynychu cyfarfod pwynt gwirio cychwynnol i:

- ddeall yr asesiad sydd i'w gwblhau a'r cysylltiadau rhwng tasgau
- bennu'r gofynion a'r amodau ar gyfer Tasg A (h.y. sut y cedwir portffolio; rôl y log myfyriol)
- gadarnhau'r gofynion ar gyfer yr elfen arsylwi (Tasg B), gan gynnwys caniatâd
- drafod a chytuno ar amserlen ar gyfer cyfleoedd i drafod eich cynnydd a chael cyfarfodydd cynllunio.

- **Tasg A - gweithgareddau parhaus o ddydd i ddydd**

Cadw log myfyriol a chynhyrchu portffolio o dystiolaeth - **yn barhaus dros holl gyfnod yr asesiad**

- **Tasg B - cynllunio a gweithredu pedwar arsylwad o blentyn/plant yn y lleoliad gwaith**
- **Tasg C – gwerthusiad cyfannol o ganlyniadau eich pedwar arsylwad**
- **Tasg CH – pedwar cynllun gweithgaredd yn seiliedig ar arsylwadau tasg C**

Byddwch yn cynllunio pedwar gweithgaredd y byddwch yn eu harwain, yn dilyn eich arsylwadau / gwerthusiad cychwynnol o blant yn eich lleoliad; bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno i'ch rheolwr a'ch aseswr ynghyd â'ch cofnodion arsylwi a'r gwerthusiad cyfannol (Tasgau B ac C).

- **Cyfarfod cynllunio ar gyfer asesu**

Mynychu'r cyfarfod cynllunio gyda'ch rheolwr i:

- gadarnhau cyraeddadwyedd cynlluniau
- gytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen
- gwblhau 'ffurflen gynllunio'r ymgeisydd'.

- **Tasg D – gweithredu pedwar cynllun gweithgaredd**

- arwain ar gyflawni pob un o'ch pedwar gweithgaredd a gynlluniwyd, gan ddilyn eich cynllun y cytunwyd arno tra bydd eich aseswr yn eich arsylwi
- o leiaf pedwar arsylwad ffurfiannol ffurfiol gan aseswr.

- **Cyflwyno'ch portffolio wedi'i gwblhau a'ch log myfyriol i'ch aseswr**

- ar ôl i chi gadarnhau a chytuno â'ch rheolwr bod yr holl weithgareddau asesu wedi'u gwneud.

- **Tasg DD – trafodaeth a arweinir gan yr aseswr**

## Sut fydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Caiff y cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** ei asesu yn gyfannol, sy'n golygu y cesglir eich tystiolaeth o sefyllfaoedd gweithio go iawn sy'n dangos y gallwch weithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur. Wedi iddo gael ei gytuno, rhyngoch chi, eich aseswr a'ch rheolwr, eich bod yn barod i gael eich asesu, byddwch yn dechrau paratoi ar gyfer eich asesiad terfynol. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth a arweinir gan yr aseswr.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Dros gyfnod o 10 mis, byddwch yn gweithio gyda phlant rydych yn eu cynorthwyo i gasglu tystiolaeth i gwblhau eich unedau dewisol; gan ddangos sut rydych yn defnyddio amgylcheddau galluogi, cyfleoedd dysgu a phrofiadau i gefnogi eu datblygiad cyfannol, chwarae, dysgu a'u hiechyd a'u llesiant. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd rydych yn gweithio gydag eraill drwy gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol â chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â gofal plant gan ddefnyddio dogfennau, prosesau a gweithdrefnau cytûn.

Byddwch yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau arferol sydd ar waith yn eich sefydliad/lleoliad, gan ddangos yr egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Trwy gydol eich cyfnod astudio bydd disgwyl i chi lenwi **log myfyriol** yn rheolaidd, gan fyfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r plant yn eich lleoliad a nodi unrhyw un o'ch anghenion datblygu eich hun, yn ogystal â myfyrio ar gynnydd datblygiadol plant yn y lleoliad; gellir trafod y log hwn ymhellach gyda'ch rheolwr / aseswr. Bydd angen i chi hefyd gadw **portffolio o dystiolaeth** yn ystod y cyfnod asesu. Bydd eich aseswr a'ch rheolwr yn eich cefnogi i gasglu unrhyw dystiolaeth berthnasol.

Bydd gofyn i chi **arsylwi** anghenion plant, a **chynllunio** a datblygu gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu, datblygiad, chwarae, iechyd a llesiant y plant hynny. Yn ystod 4 - 5 mis cyntaf y cyfnod asesu byddwch yn **cwblhau pedwar arsylwad** o blant mewn amgylchedd gwaith go iawn. Dylai eich arsylwadau ddilyn dysgu a datblygiad cyfannol un plentyn dros gyfnod o amser.

Byddwch yn defnyddio'ch arsylwadau i **werthuso a myfyrio** ar ddysgu, datblygiad, chwarae, iechyd a llesiant y plant rydych chi'n eu cefnogi, a byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth hon ymhellach i **gynllunio ar gyfer, datblygu a darparu pedwar cyfle/profiad** a wnaiff gynorthwyo ymhellach i hybu datblygiad y plentyn/plant yn y meysydd hyn.

Ar ôl i'ch aseswr a'ch rheolwr gadarnhau bod yr holl weithgareddau asesu ymarferol wedi'u gwneud a'u cyflawni, bydd eich portffolio a'ch log myfyriol yn cael eu cyflwyno i'w hasesu gan eich aseswr. Mae eich aseswr wedi'i hyfforddi i farcio gwaith mewn ffordd benodol a byddant yn dilyn cyfarwyddyd a ddarparwyd gan y **Corff Dyfarnu**. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn deg ac yn ddibynadwy. Fe gaiff y broses hon ei gwirio gan y Darparwr Sicrwydd Ansawdd Mewnol (IQA) a chan y Darparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA).

Byddwch yn cyflwyno gwerthusiad terfynol o'ch gweithgareddau trwy **drafodaeth broffesiynol dan arweiniad aseswr**; bydd hyn yn canolbwyntio ar eich myfyrdodau a'ch dysgu yn sgil hybu a chefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant trwy gyfrwng eich ymarfer. Bydd y drafodaeth hon hefyd yn rhoi cyfle i'ch aseswr ofyn unrhyw gwestiynau pellach ar feysydd y bydd yn credu nad oedd tystiolaeth ddigonol yn eu cylch.

Bydd yr aseswr yn asesu'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu'r cymhwyster.

## Pa dystiolaeth ychwanegol y gallwn i ei defnyddio?

Bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu drwy brosesau arferol y gweithle, gan gynnwys tystiolaeth gan eich cyflogwr neu fentor yn y gweithle.

- Tystion arbenigol
- Tystiolaethau tystion
- Cynhyrchion gwaith
- Adroddiadau ymgeisydd/myfyriol
- Cwestiynau
- Astudiaethau achos
- Llyfrau gwaith GCC wedi'u cwblhau
- Asesiadau efelychiadol

## Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

### TASG A

LOG MYFYRIOL

PORTFFOLIO O DYSTIOLAETH

### TASG B

CYNLLUNIO PEDWAR CYNLLUN A CHOFNOD ARSYLWI

### TASG C

GWERTHUSIAD HOLISTAIDD

### TASG CH

CYNLLUNIO PEDWAR GWEITHGAREDD

### TASG D

COFNODION GOFYNNOL Y GWEITHLE

EICH COFNODION O'R GWEITHGAREDD

ARSYLWAD YR ASESWR

### TASG DD


TRAFODAETH PROFFESIYNOL

# Beth yw log myfyriol?

Mae eich log myfyriol yn ddarn hanfodol o dystiolaeth wrth gwblhau eich cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**. Mae hwn yn ddarn ysgrifenedig o dystiolaeth sy'n caniatáu i chi fyfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r plant yn eich lleoliad a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd priodol; byddwch hefyd yn nodi unrhyw un o'ch anghenion datblygu eich hun i'w trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr

Mae'r log hwn yn fwy na dyddiadur a bydd yn cynnwys mwy na chofnod o ddigwyddiadau, bydd hefyd yn cynnwys hunan-fyfyrio, dadansoddiad beirniadol ac adolygiadau manwl o'r hyn rydych wedi'i gyflawni, yr hyn sydd wedi mynd yn dda, neu'n llai da, a'ch meddyliau a'ch teimladau ar sut i ddatblygu a gwella yn ymarferol. Mae hefyd yn gyfle i chi arddangos eich bod yn gwybod ac yn deall y cysyniadau, ymagweddau, polisi a deddfwriaeth sy'n sail i arfer o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar hawliau.

Anogir eich rheolwr i'ch cefnogi i gwblhau'r log hwn gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o fyfyrio, gan eich cefnogi i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu'ch dull dysgu orau. Dylai eich rheolwr fod yn siŵr eich bod yn deall yr hyn sydd angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ystod eich gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w ddweud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses gwneud penderfyniadau a'i ymarfer ei hun.





Mae myfyrio yn broses barhaus, sydd o werth a phwysigrwydd aruthrol, ac oherwydd hynny dylech ddiweddaru'ch log yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod rhwng cyfarfodydd cynnydd; bydd eich log yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfodydd cynnydd a bydd yn galluogi'ch aseswr a'ch rheolwr i gefnogi'ch dysgu yn llawnach, penderfynu ar hyder a gwybodaeth, yn ogystal â'ch parodrwydd i gael eich asesu.

Mae modelau myfyrio amrywiol y gallwch eu defnyddio ar gyfer log myfyriol eich cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, fodd bynnag, argymhellir y dylech chi ddilyn un o'r canlynol:


- Cylch Myfyrio Gibbs (1988)
- Model Myfyrio Johns (2000)
- Model Cylchol Atkins a Murphy (1993)

Mae'r mwyafrif o fodelau myfyrio yn seiliedig ar yr egwyddor bod myfyrio yn arwain at ragor o ddysgu. Bydd y model hwn yn eich arwain yn y gwahanol elfennau a haenau sy'n ofynnol mewn myfyrio da, a thrwy hynny sicrhau eich bod yn cynnwys y manylion, dadansoddiad a myfyrdod angenrheidiol yn eich holl gofnodion.






## Model Myfyrio Johns



## Beth yw trafodaeth dan arweiniad?

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae'n rhaid i chi ei gwblhau yw trafodaeth ffurfiol gyda'ch aseswr. Bydd yr asesiad hwn yn werthusiad o'r gweithgareddau a gynhelir a dylai hefyd gefnogi'r aseswr i gadarnhau unrhyw fylchau mewn tystiolaeth, neu ychwanegu haen ychwanegol o hyder, yn enwedig o amgylch unrhyw agweddau o wybodaeth nad ydynt efallai wedi'u gweld yn llawn trwy'r arsylwadau ymarfer.

Bydd y gwerthusiad yn seiliedig ar eich adolygiad a'ch myfyrdodau o ddeilliannau'r cyfleoedd/profiadau dan sylw, a sut maen nhw wedi helpu'r plentyn/plant i ddysgu a datblygu, yn seiliedig ar ganfyddiadau eich gwerthusiad cyfannol, a thrwy nodau eich cynlluniau cychwynnol. Efallai y bydd cwestiynau'n cael eu gofyn hefyd am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddatblygiad plant o ran eich gweithgareddau asesu.

Gallwch baratoi nodiadau ymlaen llaw, a gallwch ddod â'r rhain gyda chi a chyfeirio atyn nhw yn ystod y drafodaeth.

### Cyn y drafodaeth

Bydd yr aseswr yn cynllunio strwythur y drafodaeth, h.y. yn ystyried y canlyniadau i'w hadolygu a'r ystod o gwestiynau i'w gofyn i chi. Ni ofynnir i chi baratoi unrhyw beth penodol ar gyfer y drafodaeth a bydd yr aseswr yn sicrhau bod cwestiynau'n glir, a bod cyd-destun perthnasol digonol yn cael ei roi os gofynnir y cwestiwn ar agwedd ar arfer a arsylwyd er mwyn eich galluogi i gofio'r digwyddiad.

## Cyflwyno'r drafodaeth

Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n esmwyth ar ddechrau'r asesiad a chyn i'r dystiolaeth gael ei chasglu. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai ei nerfau effeithio ar ei berfformiad. Bydd eich aseswr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau hyn, gan gynnwys:

- cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses
- crynhoi pwrpas a strwythur y drafodaeth
- pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol
- gofyn i'r ymgeisydd a oes ganddo unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

## Yn ystod y drafodaeth

Bydd eich aseswr yn gwneud nodiadau i gipio'ch ymatebion. Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:


- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, cwestiynau megis 'Sut roeddet ti'n gwybod hynny?', 'Sut wnes di ddod i'r casgliad hwnnw?'
- crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir.

## Amseriadau

Ni ddisgwylir i'r drafodaeth hon bara mwy na chyfanswm o 45 munud.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda'r ymgeisydd a'i gael i gytuno cyn dechrau.



# Cam 4 – Cwblhau

- **Gwneir penderfyniad terfynol yr asesiad.**
- **Cadarnhau'r penderfyniad**

Fe'ch hysbysir o ganlyniad yr asesiad.

Os na chyflawnir yr asesiad, amlinellir y rhesymau dros y canlyniad hwn a rhoddir adborth ar yr hyn sydd angen ei wneud nesaf.

## Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth dan arweiniad?

Dylai'r gwaith asesu a'r adborth ddigwydd o fewn pythefnos i gyflwyno'r asesiad wedi'i gwblhau. Os dyfernir bod y dystiolaeth yn annigonol, ac nad yw'ch aseswr yn fodlon y gellir dyfarnu canlyniad pasio, byddant yn egluro i chi a'ch rheolwr y rhesymau dros y canlyniad, beth arall sydd ei angen ac amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth bellach.

### Ailgyflwyno

Os bydd angen i ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid darparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn ei alluogi i wneud hynny. Os na fyddwch yn diwallu'r canlyniadau dysgu priodol sy'n ofynnol yn yr ailgyflwyniad dilynol, dylai'r ganolfan drefnu cymorth ychwanegol i chi, neu bydd gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.


### Sut allaf gael fy nhystysgrif?

Wedi i bawb (chi, eich rheolwr a'ch aseswr) gytuno bod yr holl dasgau wedi'u cwblhau i ddiwallu gofynion y cymhwyster, bydd y Corff Dyfarnu yn cyflawni nifer o'u gwiriadau eu hunain i sicrhau ansawdd. Bydd eich portffolio o dystiolaeth yn cael ei ddilysu'n fewnol gan Ddarparwr Sicrwydd Ansawdd Mewnol (IQA) a nodwyd gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle; a bydd ar gael i'w ddilysu'n allanol gan Ddarparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA) a ddyrennir gan y Corff Dyfarnu. Os yw pawb yn cytuno â phenderfyniad eich aseswyr, yna cyhoeddir eich tystysgrif.

## Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Efallai y gallwch wneud cais am gymorth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi ddiwallu rhai meini prawf a gall y broses gymryd peth amser i'w threfnu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted ag y gallwch fel y gallant wneud trefniadau. Nid yw pob cais am gymorth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad cywir.

**COFIWCH** - Cyn cymryd asesiad mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod yn barod a bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu i nodi pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn. Trwy'r cyfnod dysgu dylech gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ar y gwefannau dilynol:




Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb

**Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau?** Dylech ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ar eich cymhwyster. Po gyntaf y byddwch yn dechrau arfer da ag astudio, po leiaf y straen y byddwch yn ei deimlo. Mae astudio llwyddiannus yn galw am sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond hefyd mae angen i chi fod yn realistig. Os ydych yn gweithio yn ogystal â mynychu'r ysgol neu'r coleg, neu os ydych yn cwblhau rhaglen yn y gwaith fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio ar gyfer amser astudio. Byddwch yn falch eich bod yn astudio a gadewch i'ch ffrindiau a'ch teulu /gofalwyr wybod y bydd arnoch angen eu cefnogaeth ac y byddwch yn disgwyl honno.

Mae rhai pobl yn ei gael yn haws ac yn fwy effeithiol astudio y peth cyntaf yn y bore, mae'n well gan eraill ei wneud yn hwyrach yn y dydd, ond waeth beth yw amser y dydd, mae astudio yn llawer haws ac yn fwy llwyddiannus os oes gennych le tawel a chysurus sy'n llachar ac yn agored i'r awyr ac sy'n cynnwys rhywle i ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau dilynol a fydd yn eich helpu i astudio:

LLYFR GWAITH FFRAMWAITH SEFYDLU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant

ADNODDAU ADDYSGOL DIGIDOL

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o offer ac adnoddau a all eich helpu i astudio:

- gall ysgrifennu â beiros lliwgar eich helpu i nodi geiriau neu ymadroddion allweddol wrth i chi adolygu
- gall crynhoi'ch nodiadau eich helpu chi i drefnu'ch dysgu a lleihau ailadrodd
- gweithio ag eraill mewn grwpiau bach - mae rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a phrofi eich gilydd yn wirioneddol werth chweil
- cymerwch seibiannau rheolaidd - gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb egni i chi a helpu i sicrhau bod eich meddwl yn canolbwyntio
- cymerwch seibiant o'r cyfryngau cymdeithasol, rhoi eich ffôn ar ddistaw neu, yn well byth, ei ddiffodd.

**COFIWCH** na allwch astudio yn dda os ydych wedi blino, dan ormod o straen neu ar frys. Cynllunio a phenderfyniad yw'r allwedd!

# Beth allai'r cymhwyster hwn arwain ato?

## Symud ymlaen at gyflogaeth

Fel yr amlinellir uchod, mae cynnwys y cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn cael ei lywio a'i ddylanwadu gan Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

**ANOGIR DYSGWYR YN GRYF I GWBLHAU'R CYMHWYSTER CRAIDD CYN, NEU AR YR UN PRYD, Â CHYMWYSTERAU ERAILL SY'N RHAN O'R GYFRES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT HON, GAN Y BYDD HYN YN UN O'R GOFYNION I YMARFER A BENNIR GAN GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU.**

Ar ôl cael gwaith, efallai y bydd cyfleoedd pellach i symud ymlaen at rolau Lefel 3 neu, ar ôl i chi ennill mwy o brofiad a hyder, i ddatblygu eich potensial o ran arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r cymhwyster Lefel 4 dilynol wedi'i gynllunio i adeiladu ar y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau y byddwch wedi'u datblygu ar Lefel 3. Bydd y rhain yn eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa gofal plant ac fe'u cynlluniwyd i gefnogi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau datblygu sydd eu hangen i **arwain a rheoli gwasanaethau**.

Cyn symud ymlaen at Lefel 4 byddwch eisoes wedi ennill profiad sylweddol ar Lefel 3 a bydd y cymwysterau isod yn eich cefnogi i naill ai ganolbwyntio ar agwedd benodol ar ymarfer neu byddant yn eich helpu i ehangu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ofynnol i arwain a rheoli darpariaeth yn y sector gofal plant rheoledig.

### LEFEL 4 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT GYDAG ARBENIGEDD (AR GAEL YM MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gyfoethogi ac ehangu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n ymwneud â maes ymarfer sydd â ffocws pendant. Byddwch yn gallu dewis pa faes y mae gennych ddiddordeb mwyaf ynddo, ond bydd yn rhaid i hyn fod yn berthnasol i'r math o wasanaethau rydych chi'n eu darparu. Mae'n rhaid i chi fod mewn cyflogaeth i gyflawni'r cymhwyster hwn.

### LEFEL 4 PARATOI I ARWAIN A RHEOLI GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gynnig cipolwg ar ddamcaniaethau a modelau ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster hwn cyn y gallwch symud ymlaen i'r Lefel 5 sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant rheoledig.

## Symud ymlaen y tu hwnt i Lefel 4

Er mwyn symud ymlaen i'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, cymhwyster cydnabyddedig sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant rheoledig, mae'n rhaid i chi yn y lle cyntaf fod wedi cwblhau'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** (ar gael ym mis Medi 2020).

### LEFEL 5 ARWAIN A RHEOLI GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT (AR GAEL YM MIS MEDI 2020)

Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ar yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu ar Lefel 4 ac yn rhoi cyfle i'ch gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau gael eu hasesu. Er mwyn cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, rhaid i chi fod yn gweithio ar Lefel 5 ac yn gallu dangos eich bod wedi dod yn arweinydd a rheolwr cymwys. Mewn rhai rhannau o'r sector gofal plant rheoledig mae'n ofynnol bod â chymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig. Mae'r cymhwyster Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn gymhwyster cydnabyddedig.

# Symud ymlaen at ddysgu pellach

Os nad ydych yn ystyried cyflogaeth ar hyn o bryd ac mae'n well gennych barhau â'ch dysgu ar Lefel 3, cynllunir y cymhwyster dilynol i adeiladu ar y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rolau Lefel 3 fel aelod '**cymwys**' o staff mewn lleoliadau gofal plant rheoledig neu yng ngwasanaethau plant GIG. Bydd hefyd yn eich galluogi i symud ymlaen at astudio pellach a hyfforddiant proffesiynol gan gynnwys addysgu a nyrsio plant:

**LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

Gallwch gwblhau'r cymhwyster hwn wrth astudio, ond mae'n rhaid i chi ymgymryd â lleoliad diwydiant perthnasol.

Er y bydd y cymwysterau Lefel 3 a restrir uchod yn denu pwyntiau UCAS, mae prifysgolion yn rhydd i osod eu meini prawf mynediad eu hunain ar gyfer rhaglenni graddedig ac israddedig. Gall y rhain amrywio o brifysgol i brifysgol a gallant gynnwys gofyniad i ddal pynciau TGAU penodol hefyd, gan gynnwys mathemateg a Saesneg.

Rydym wedi gweithio ag ystod o brifysgolion ledled Cymru a'r DU ehangach i sicrhau bod y cymwysterau Lefel 3 newydd yn cael eu cydnabod a'u derbyn ar gyfer mynediad i raglenni gradd a gradd sylfaen.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion i weithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, cyfeiriwch at wefan 'Gofal Cymdeithasol Cymru': https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru

# Symud ymlaen ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u cynllunio i alluogi dilyniant yn y gwasanaethau gofal plant ac i rolau eraill yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Wedi i chi gwblhau'r cymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, efallai y byddwch yn penderfynu yr hoffech weithio gyda phlant hŷn neu gydag oedolion. Bydd y cymwysterau dilynol yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

## A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster?

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i alinio â Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sydd ar hyn o bryd yn fframwaith cynefino gwirfoddol i'r gweithle y'i bwriedir i'w ddefnyddio yng Nghymru yn unig. Mae cynnwys y cymhwyster hwn a Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan (AWIF) ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cynrychioli'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol ar Lefel 3 sy'n hanfodol ar gyfer gweithio'n ddiogel gyda phlant ifanc.

Rhagwelir y bydd mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau'r cymhwyster hwn cyn neu ochr yn ochr â'r:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

neu fel rhan o'r:

- cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Mae'r holl gymwysterau uchod yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant, a gydnabyddir gan reolyddion gweithlu a sefydliadau sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhai sy'n cynrychioli'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau Lefel 2/3 sydd eu hangen i weithio gyda phlant ifanc ledled y DU.

## Cyllid

Gellir cyllido'r holl gymwysterau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yng Nghymru, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle am gyfleoedd cyllido a allai weddu i'ch anghenion.

# Sut ydw i'n hoffi dysgu - beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?

Mae dysgu yn broses unigol iawn ac felly mae'n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar sut y gallwch ddysgu, prosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut y gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol fel eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth newydd yn hawdd pan fydd angen. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â pherfformio'n dda yn eich asesiadau - mae'r un mor bwysig eich bod yn gallu cofio'ch gwybodaeth pan rydych yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu ac arddangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y mwyafrif o bobl hoff ffordd o ddysgu y gellir ei disgrifio'n fras mewn un neu ddwy o'r ffyrdd dilynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio


Dros y blynyddoedd mae cryn nifer o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu i geisio ein helpu i nodi sut rydym yn dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar wahanol unigolion i wneud dysgu'n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yw damcaniaeth ddysgu trwy brofiad Kolb (1984) a damcaniaeth Honey & Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithredu - teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Adeiladodd Honey & Mumford ar ddamcaniaeth Kolb sy’n awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull dysgu unigolyn yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y pwnc 'hoff' ddulliau dysgu gyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, roedd llawer yn credu bod unigolion yn dysgu mewn ffordd benodol yn unig a bod hyn yn gymharol ddigyfnewid. Mae meddwl modern ynghylch 'hoff' ddull dysgu yn nodi na ddylid meddwl am sut rydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth sy’n ddigyfnewid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych ddysgu yn ddull defnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych yn ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych yn teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych ynddo ac ati.

Os meddyliwch am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth, efallai y gwelwch fod eich hoff ymagwedd yn ffitio i un, neu ddau efallai, o'r categorïau dilynol:

| DULL DYSGU | EFALLAI MAI DYMA'CH HOFF DDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | rydych yn hoffi dysgu trwy wneud | frwdfrydig; yn tueddu i weithredu yn gyntaf, ac ystyried yn nes ymlaen; yn y sefyllfa sydd ohoni | Cynhyrchu syniadau mewn grŵp, arbrofi ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| PRAGMATYDD | rydych yn hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut y gallent weithio yn y byd go iawn | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus | Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol o'r hyn rydych yn ei ddysgu. |
| MYFYRIWR | rydych yn hoffi meddwl am yr hyn rydych yn ei ddysgu | hoffi rhoi cynnig ar bethau; byddwch yn gweithredu'n gyflym ac yn hyderus; gallwch fod yn ddiamynedd; datryswyr effeithiol o broblemau | Treulio amser yn darllen o amgylch pwnc, a gwylio eraill yn rhoi cynnig ar bethau. |
| DAMCANIAETHWR | rydych yn hoffi deall sut mae'r dysgu newydd yn cyd-fynd â'ch 'model gweithio' neu 'fframwaith' ac â damcaniaethau blaenorol | dda o ran addasu; yn hoffi dadansoddi er mwyn meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddylwyr rhesymegol | Modelau a damcaniaethau, â digon o wybodaeth gefndirol. |

Os ydych yn meddwl am rai profiadau dysgu eraill rydych wedi'u cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych fynediad at wahanol adnoddau, (2) roeddech yn teimlo'n hyderus, a (3) roeddech yn gallu cymryd eich amser. Y rheswm am hyn yw y gall yr amgylchedd, sut rydych yn teimlo'n emosiynol a'ch profiadau o ddysgu yn y gorffennol oll effeithio ar sut y gallwch drin dysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, a allai fod gennych ynglŷn â dechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/aseswr/mentor gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich cefnogi i gyrchu cymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i nodi a deall yn well pa wahanol ddulliau dysgu sy'n gweithio orau i chi.